Children in Wales
Plant yng Nghymru

# Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)02-07(p.5): 27 Medi 2007**

## Cynnig ar gyfer creu Pwyllgor trawsbynciol yn y Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Blant a Phobl Ifanc

# Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru sy'n dod â sefydliadau ac unigolion ynghyd i '"siarad gydag un llais' "ar ran plant a phobl ifanc. Ei rôl yw gwneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ffaith yng Nghymru. Mae Plant yng Nghymru hefyd yn brwydro dros wasanaethau safon uchel a chynaliadwy ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, a sylw arbennig i blant mewn angen, yn ogystal â sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais ar faterion sy'n effeithio arnynt.

Mae gan Plant yng Nghymru dros 220 o aelodau, yn cynnwys y prif asiantaethau gwirfoddol ar gyfer plant, cymdeithasau proffesiynol ac awdurdodau lleol, yn ogystal â llawer o grwpiau cymunedol llai. Mae'n hwyluso amrywiaeth o fforymau cenedlaethol a rhanbarthol a faterion megis anabledd, tlodi plant, hawliau plant, rhianta, tadolaeth, plant sy'n derbyn gofal, eiriolaeth ac ati.

Mae Plant yng Nghymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r National Children's Bureau yn Lloegr, Children in Scotland a Children in Northern Ireland ac yn rhyngwladol mae'n aelod gweithgar o Eurochild a'r Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant.

Mae gan y sefydliad Gyngor Polisi mawr a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd gan ei aelodaeth yn cynrychioli'r holl ddisgyblaethau a sectorau a chaiff y materion strategol allweddol ar gyfer y sector plant eu trafod a'u cytuno yn y Cyngor hwn.

### Pwyllgor Craffu trawsbynciol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Wrth baratoi ar gyfer Llywodraeth newydd y Cynulliad, bu'r Cyngor Polisi yn ystyried ei flaenoriaethau ac fel canlyniad, mae Plant yng Nghymru wedi cynhyrchu dogfen strategol allweddol 'Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.' Y flaenoriaeth gyntaf a phwysicaf i'r Cyngor Polisi oedd cael pwyllgor trawsbynciol yn y Cynulliad a fyddai'n craffu ar weithgaredd Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt pob agwedd o bolisi fel mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc ac i ddal Llywodraeth y Cynulliad i gyfrif.

Roedd y rhesymau dros sefydlu strwythur craffu o'r fath yn cynnwys:

Mae holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad yn effeithio ar blant a phobl ifanc yn seiliedig ar yr egwyddorion a gynhwysir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae 'Hawliau ar Waith' (polisi Llywodraeth y Cynulliad) yn cwmpasu holl elfennau'r Confensiwn ac o'r herwydd y meysydd gweithgaredd sydd o fewn holl bortffolios Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Confensiwn hefyd yn cynnwys materion sydd wedi eu cadw yn ôl. Fel canlyniad, gall datblygu polisi mewn portffolio unrhyw Weinidog yn Llywodraeth y Cynulliad effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc.
Mae'n hanfodol y creffir ar effaith holl bolisïau Llywodraeth y Cynulliad p'un ai ydynt yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc os yw eu bywydau i gael eu gwella. Mae hyn yn cynnwys polisïau na fyddid efallai yn eu hystyried fel arfer fel bod yn uniongyrchol berthnasol i blant ar bynciau megis cludiant, yr amgylchedd, materion gwledig ac ati yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u cysylltu'n fwy uniongyrchol megis gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg.
Cyn gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2004, roedd Comisiynydd Plant Cymru yn atebol i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Mae'n awr yn neilltuol o bwysig fod Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol am ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd Plant.
Yn ystod tymor blaenorol y Cynulliad, bu cryn ddiddordeb mewn materion plant a phobl ifanc mewn portffolios gwahanol Weinidogion, fodd bynnag un o'r materion anoddaf oedd y llu o bolisïau nad oedd o reidrwydd wedi'u cydlynu ac a fedrai weithiau wrthddweud neu danseilio ei gilydd a'i gwneud yn anodd iawn i gyflwynwyr gwasanaeth yn y maes eu gweithredu. Byddai un Pwyllgor yn craffu ar yr holl weithgaredd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn effeithiol tu hwnt wrth dynnu sylw i hyn ac osgoi dyblygu.
Mae'n neilltuol o amserol yng ngoleuni Deddf Plant 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau i gydweithio a chronni cyllidebau. Mae felly'n hanfodol fod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu hyn a bod craffu digonol gan y Cynulliad.

### Egwyddorion sy'n sail i'r swyddogaeth Craffu trawsbynciol

Cydnabyddir dan y trefniadau newydd nad oes cynifer o Aelodau Cynulliad i wasanaethu'r holl Bwyllgorau. Fodd bynnag maes o law mae'n debygol y bydd mantais sylweddol mewn ymagwedd gydlynol at blant a phobl ifanc.

Dylai fod yr un pwerau ag sydd yn y Pwyllgorau Craffu presennol i "'archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig." Mae'n amlwg fod y pŵer i ymchwilio a galw tystion yn bwysig.
Dylai'r Pwyllgor fedru monitro'r holl ddatblygiadau polisi ar draws Llywodraeth y Cynulliad ar blant a phobl ifanc ac felly dylai gynnwys aelodau o bob un o'r Pwyllgorau Craffu eraill.
Dylai'r Pwyllgor fod yn bwyllgor sefydlog ac nid yn un sy'n cwrdd yn unig ar gyfer darnau penodol o waith.

## Opsiynau Posibl

**1. Pwyllgor Craffu annibynnol newydd ar Blant a Phobl Ifanc**

Gofyn i'r Pwyllgor Busnes am greu Pwyllgor Craffu trawsbynciol newydd ar Blant a Phobl Ifanc gydag aelodau o'r Pwyllgorau Cymunedau a Diwylliant; Menter a Dysgu; ac Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol gyda'r gallu i ddod ag aelodau i mewn o Bwyllgorau eraill os oes angen.

**2. Is-bwyllgor Plant a Phobl ifanc o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal gydag aelodau ychwanegol o Bwyllgorau eraill** Drwy ei natur, mae'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn torri ar draws portffolio pob Gweinidog ac yn y gorffennol mae wedi rhoi ystyriaeth benodol i faterion megis y rhai sy'n effeitho ar blant anabl. Efallai y medrai'r Pwyllgor ystyried creu Is-bwyllgor yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc o blith ei aelodau ei hun ond hefyd yn dod ag aelodau i mewn o Bwyllgorau Craffu eraill ar sail barhaol i'w wneud yn hollol drawsbynciol.

## Casgliad

Er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf bregus yng Nghymru, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gael ymagwedd gydlynol ac integredig at ddatblygu polisi. Mae felly'n hanfodol cael dull cydlynol ar gyfer craffu ar waith y Cynulliad er mwyn osgoi ymagwedd ddigyswllt ar gyfer galw Llywodraeth y Cynulliad i gyfrif. Gobeithir felly y bydd Aelodau Cynulliad yn fodlon ystyried yr opsiynau a amlinellir uchod.

Catriona Williams
Prif Weithredydd
Plant yng Nghymru

24 Medi 2007